

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen**  
**3ydd o Fai 2022**

**1. Croeso**

Rhodddwyd croeso gan y Cadeirydd Emma Chappell.

**Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y cyngorwyr:

Dawn Parry, Jane Pierce, Lowri Hughes, R Hefin Williams

**Presennol**

Yn bresennol roedd Y Cadeirydd Emma Chappell, a'r Cyngorwyr Phyllis Ellis, Rhian Evans-Hill, Ynyr Parri. Richard Ll Jones, Idris Thomas, Gareth W Griffiths, Elfed Williams Sasha Williams ac Elwyn Jones.

Ni chafwyd presenoldeb, nag ymddiheuriad gan neb o'r cyhoedd eto eleni.

**2. Gwedd**

Rhodddwyd gair o weddi gan Richard Ll Jones

**3. Ethol Cadeirydd am y Flwyddyn 2022 - 2023**

Yn arferol bydd Cadeirydd penodedig yn y swydd am 2 flynedd, felly, cytunodd Emma I barhau yn y swydd am flwyddyn arall.

Gyda Chadeirydd Etholedig yn y Gadair, derbyn datganiad gan Y Cadeirydd o dderbyn y swydd, a'i bod yn edrych ymlaen at arwain y Cyngor eto eleni

**4. Ethol Is-gadeirydd am y Flwyddyn 2022 - 2023**

Er bod yr Is gadeirydd yn absennol o'r cyfarfod, bydd Jane hefyd yn parhau fel is Gadeirydd eleni.,

**5. I gadarnhau swyddogion Pwyllgor Llwybrau Cyhoeddus**

Gan fod nifer o rai sydd yn gyfrifol ar hyn o bryd o'r llwybrau cyhoeddus yn absennol, byddwn yn symud hwn i benodi pwyllgor yn y cyfarfod mis Mehefin

**6. I gadarnhau swyddogion Bwyllgor prosiect eleni - Cynllun Mapiau**

Mae'r cyngorwyr Phyllis Ellis, Sasha Williams ac Emma Chappell yn fodlon aros i weld y cynllun yma yn ffrwythloni eleni.

**7. I gadarnhau swyddogion gyda gofalu am swydd y Clerc a Swyddog Ariannol**

Swyddogion fydd yn gofalu am swyddogaeth y clerc yn parhau fel y Cyngorwyr Richard Ll. Jones, Phyllis Ellis a Rhian Evans-Hill

Cadeirydd.....

**8 I greu Unrhyw bwyllgor arall yn ôl doethineb Y Cyngor, ac i ethol swyddogion i'r pwyllgorau, os yn briodol.**

Penderfynwyd fod ddigon hyblyg yn y dyfodol lle os bydd angen neu os bydd achos yn codi yna bydd ddigon rhwydd ethol swyddogion y pryd hynny.

**7. I gadarnhau cynrychiolydd ar Lywodraethwyr :**

**Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi** - Bydd angen penodi aelod Newydd, gan obeithio byddwn yn gallu cyfethol, gan nad oes neb wedi eu hethol yn lle Lowri Hughes.

**Ysgol Gynradd Penisa'r-waun** - Phyllis Ellis yn hapus i barhau

**Ysgol Gynradd Bethel** - Richard Ll Jones yn hapus i barhau

Gofynnwyd pam nad oedd Ysgol Rhiwlas wedi ei gynnwys yn y rhestr. Bu l'r clerch gysylltu a'r pennaeth tair blynedd yn ôl. Cysylltwyd hefyd pryd hynny gyda phennaeth llywodraethwyr ysgolion yng Nghyngor Gwynedd i geisio datrys sefyllfa pam nad oedd yna gynghorydd cymunedol yn cynrychioli'r Cyngor ar Lywodraethwyr yr ysgol. Ond nid chafwyd canlyniad, ac felly nid oes cynrychiolaeth ers hynny. Mae'r Cyngor yn teimlo fod dyletswydd cael cynghorydd ar y llywodraethwyr, ac nid am l'r plant golli allan o unrhyw rodd neu gwelliant mae'r Cyngor yn ei roi i'r 3 ysgol arall yn dilyn ceisiadau. Dywedodd Elwyn Jones fod yna gynrychiolydd o gyngor Pentir ar y llywodraethwyr, gan fod plant o Bentir yn mynychu'r ysgol yn Rhiwlas. Eto ym mhlwyf Llanddeiniolen mae'r ysgol, ac felly dylai fod rhywun yn cynrychioli'r Cyngor ar y llywodraethwyr. Efallai bydd hyn yn newid yn y flwyddyn ysgol Newydd..

**8. I gadarnhau cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd Un Llais Cymru**

Diolch I Rhian Evans -Hill am ei gwaith yn mynychu'r cyfarfodydd yma dros y 4 blynedd diwethaf.

Cynigiwyd a derbyniwyd Ynyr Parri I gynrychioli'r Cyngor eleni. Bydd y clerch yn cysylltu gyda Unllais I hysbysu hyn.

**9. I gadarnhau cynrychiolydd ar Barc Cenedlaethol Eryri**

Cynigiwyd a derbyniwyd Rhian Evans-Hill I gynrychiolydd ar Barc Cenedlaethol Eryri'r tymor hwn.

10. Bydd Idris Thomas dal yn cynrychioli ar y cyfarfodydd Llechi

**Neuadd Rhiwlas**

Nodwyd mai R Hefin Williams oedd yn cynrychioli'r Neuadd, ar hyn o bryd, a chynigiwyd a derbyniwyd fod Rhian Evans-Hill yn fodlon fod ar bwyllgor y Neuadd o hyn ymlaen.

Dyna ddiwedd Y Cyfarfod Blyneddol am eleni. Diolchwyd i bawb am ymrwymo i'w gwaith, ac am ffurfio is-bwyllgorau yn rhwydd.

Cadeirydd.....